# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0232(EDT) a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**At Lisa Francis:**

Diolch am godi'r mater o sail tystiolaeth Partneriaeth Ddatblygu Cyfenter mewn perthynas â'r nifer o entrepeneuriaid benywaidd yng Nghymru, pan atebais gwestiwn Val Lloyd ar fusnesau sydd newydd ddechrau yn y sesiwn Cyfarfod Llawn ar 11 Mai.

Gwnaethoch ofyn pa bryd y bydd ymchwil Cyfenter yn cael ei gyhoeddi a sut y byddaf yn sicrhau y gweithredir yr argymhellion perthnasol. Fe'm hysbysir bod y proffiliau ymchwil cyfnod un cylch dau a'r crynodebau gweithredol wedi cael eu cyhoeddi ac y bydd yr adroddiadau llawn perthnasol ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf. Gellir gweld rhagor o fanylion ar eu gwefan (www.cyfenter.co.uk) neu gan Cerris Dearsley-Hopkins yn y WDA, Plas Glyndwr, The Kingsway, Caerdydd CF10 3AH (rhif ffôn: 2082 8904).

Deallaf bod Bwrdd Rheoli Project Partneriaeth Ddatblygu Cyfenter yn bwriadu cynnal seminar ym mis Medi i ystyried y data ymchwil maent wedi ei gronni. Bydd hyn yn rhoi cyfle iddynt ymgynghori â gwneuthurwyr polisi, uwch weision sifil a chynrychiolwyr cymorth busnes prif ffrwd i sicrhau bod yr argymhellion cyfnod un canlyniadol yn gadarn. Yn dilyn hyn, maent yn bwriadu dosbarthu eu canfyddiadau ymchwil cronedig i gynulleidfa eang yn cynnwys Aelodau Cynulliad, Aelodau Seneddol, Aelodau Senedd Ewropeaidd, y Gwasanaeth Busnesau Bach a chysylltiadau yn y Comisiwn Ewropeaidd, ac yn y blaen, ac edrychaf ymlaen i'w derbyn.

O gofio y bydd gan ail gam o ymchwil Cyfenter, y bwriedir ei ddechrau ym mis Medi, dros ddwy flynedd i redeg, gallwn ddisgwyl argymhellion pellach i ymddangos. Er hynny, bu gennyf gryn ddiddordeb yn eu canfyddiadau hyd yma a gallaf eich sicrhau y bydd y rhain a'u canfyddiadau parhaus yn cael eu hychwanegu at ein tystiolaeth a'u hystyried, ynghyd â data perthnasol o ffynonellau eraill, er mwyn hysbysu'r polisi yr ydym yn ei ddatblygu mewn perthynas ag entrepeneuriaeth merched.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0264(EDT) a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**At Mark Isherwood:**

Daeth i'm sylw nad wyf wedi ysgrifennu atoch gyda'r wybodaeth y cytunais i anfon atoch yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 11 Mai 2005. Ymddiheuraf am hyn.

Yn ystod cwestiynau ategol i gwestiwn a gyflwynwyd gan Sandy Mewies, cytunais i ysgrifennu atoch gyda manylion y cyfran o fuddsoddiad mewnol a ddaw i mewn i'r DU sy'n berthnasol i Gymru. Atodaf dabl sy'n amlinellu ein perfformiad yng Nghymru dros y pedair blynedd ariannol ddiwethaf, gan gynnwys ffigurau ar gyfer 2004-05 na chafodd eu rhyddhau gan Fasnach a Buddsoddiad y DU tan 29 Mehefin.

Fel y dynodais yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 11 Mai, hyd nes 2004-05, perfformiodd Cymru yn rhagorol yn erbyn gweddill y DU am nifer o flynyddoedd (ac, mewn gwirionedd, pe byddech yn cyflwyno'r data ar sail fesul pen o'r boblogaeth oedran gwaith, byddai'r canlyniadau yn creu mwy byth o argraff). Fodd bynnag, roedd y canlyniadau ar gyfer 2004-05 yn siomedig iawn, ac, yn dilyn eu rhyddhau, ni wneuthum gelu'r ffaith fy mod wedi gofyn i adolygiad diwydrwydd dyladwy gael ei chynnal i weithgareddau'r WDA (a chyrff eraill a noddwyd gan y Cynulliad) cyn eu huno â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd hyn yn dilyn

adolygiad mewnol o Adran Ryngwladol y WDA a nododd nifer o wendidau yn eu perfformiad a'u systemau. Fy nod yw sicrhau gwelliant hirdymor a chynaliadwy mewn perfformiad buddsoddi mewnol yn dilyn yr uno fis Ebrill nesaf.

**Buddsoddiad Uniongyrchol o Dramor i Gymru cymhariaeth 4 blynedd gyda'r 11 rhanbarth DU arall**

| **Cyfran Cymru (canran)** | **2004-05** | **2003-04** | **2002-03** | **2001-02** |
|---|---|---|---|---|
| Prosiectau | 5.3% | 8.3 | 8.5% | 8.0% |
| Swyddi newydd | 6.5% | 16.0% | 11.9% | 11.4% |
| Swyddi s/g | 3.6% | 12.0% | 10.5% | 14.4% |
| Cyfanswm swyddi | 5.1% | 13.7% | 14.3% | 12.6% |
| Buddsoddiad Cyfalaf | 1.9% | 6.3% | 16.0% | 6.0% |

| **Trefn (allan o 12)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Prosiectau | 9$^{ed}$ | 3$^{ydd}$ | 4$^{ydd}$ | 4$^{ydd}$ |
| Swyddi newydd | 9$^{ed}$ | 1$^{af}$ | 3$^{ydd}$ | 4$^{ydd}$ |
| Swyddi s/g | 10$^{ed}$ | 4$^{ydd}$ | 1$^{af}$ | 2$^{il}$ |
| Buddsoddiad | 9$^{ed}$ | 4$^{ydd}$ | 3$^{ydd}$ | Ddim ar gael |

**Ffigurau gwirioneddol a gofnodwyd:**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Prosiectau | 56 | 67 | 60 | 61 |
| Swyddi newydd | 2,593 | 4,064 | 4,083 | 3,872 |
| Swyddi s/g | 1,261 | 4,067 | 3,696 | 3,445 |
| Buddsoddiad Cyfalaf | £153m | £361m | £477m | £342m |

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0047(BM) a gyhoeddwyd gan Jane Hutt, y Gweinidog Busnes, ar 16 Mehefin 2005**

**At Janet Ryder:**

Yng Nghyfarfod Llawn 11 Mai 2005, bu ichi ofyn am wybodaeth bellach ar y cyllid craidd a ddarperir i Gymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru (CCCC) a Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) drwy awdurdodau lleol, a bu ichi gyfeirio yn benodol at y sefylfa yn sir Ddinbych.

Mater i'r awdurdodau perthnasol yw cefnogaeth leol am gyrff megis CCCC a MYM.

Yr wyf wedi gofyn am i'r sefyllfa yn sir Ddinbych gael ei hymchwilio, a deallaf fod adran gwasanaethau cymdeithasol sir Ddinbych, yn dilyn nifer o archwiliadau ac arolygiadau sydd wedi argymell gwelliannau mawr yn ei darpariaeth o'i gwasanaethau, wedi ail-brioteiddio ei chyllideb er mwyn cyflawni'r argymhellion hyn. Bydd hyn yn weithredol o 1 Ebrill 2006. O hynny ymlaen, bydd blaenoriaethau diwygiedig adran gwasanaethau cymdeithasol sir Ddinbych yn cynnwys mwy o gyllid ar gyfer plant gydag anghenion arbennig, plant dan anfantais a phlant o deuluoedd sydd ar incwm isel.

Felly, yn anfodlon, mae wedi adolygu'r cyllid presennol ar gyfer 2005-06 sydd yn cael ei roi i CCCC a MYM o'i chyllideb gwasanaethau cymdeithasol fel rhan o'r broses hon o ail-brioteiddio. Cafodd MYM £3,960 yn 2004-05, ac dyrannwyd £2,012 iddo ar gyfer 2005-06; cafodd CCCC £8,816 yn 2004-05, a dyrannwyd £4,488 iddo ar gyfer 2005-06. Hefyd, ar ddiwedd 2004-05, cafodd CCCC a MYM £4,000 yr un o ddyraniad sir Ddinbych o grant Cymorth. Nid arian cylchol yw hwnnw.

Os oes gennych gwestiynau pellach, awgrymaf i chi gysylltu'r awdurdod lleol yn uniongyrchol.